MORECAMBE

cobra | FLOTATION ENERGY





Dyma ddelwedd ddangosol o sut gallai Asedau Cynhyrchu Fferm Wynt Alltraeth Morecambe edrych. Gall y dyluniad go iawn fod yn wahanol.

## Y newyddion diweddaraf am y Prosiect: Hydref 2023

# Lleihau ffin safle Asedau Cynhyrchu Fferm Wynt Alltraeth Morecambe

**Croeso i gylchlythyr cyntaf Asedau Cynhyrchu Fferm Wynt Alltraeth Morecambe, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y Prosiect. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am ein penderfyniad i leihau ardal datblygu'r safle er mwyn lliniaru effeithiau pellach ar ddefnyddwyr morol eraill, yn ogystal â beth allwch chi ei ddisgwyl fel rhan o'r camau nesaf yn natblygiad y Prosiect.**

### Ymgynghori statudol

Diolch yn fawr i bawb a gymerodd ran yn ein hymgynghoriad statudol diweddar, a gynhaliwyd rhwng 19 Ebrill a 4 Mehefin 2023. Yn ystod yr ymgynghoriad, fe wnaethom gynnal 11 o arddangosfeydd ac wyth digwyddiad dros dro ledled gogledd Cymru, Gogledd-orllewin Lloegr, ac Ynys Manaw, yn ogystal â gweminar ar-lein ar gyfer y rhai nad oeddent yn gallu bod yno wyneb yn wyneb. Daeth dros 360 o bobl i'r digwyddiadau er mwyn gofyn cwestiynau ac i ddysgu mwy am y Prosiect.

Roedd gwefan ein hymgynghoriad hefyd ar gael, a oedd yn cynnwys llond gwlad o ddeunyddiau a gwybodaeth. Roedd hyn yn galluogi pobl i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad a rhoi eu hadborth ar adeg sy'n gyfleus iddyn nhw, gan gynnwys defnyddio'r ffurflen adborth ar-lein a'n map adborth rhyngweithiol.

Yn ystod yr ymgynghoriad, cawsom 168 o ddarnau o adborth gan gymunedau lleol, cynrychiolwyr etholedig, a rhanddeiliaid technegol eraill – mae pob darn o adborth wedi cael ei gofnodi, a bydd pob un yn cael ei ystyried. Rydym yn gwerthfawrogi eich adborth. Mae eich adborth wedi ein helpu i ddod i benderfyniad i leihau ardal datblygu'r safle, a bydd yn parhau i'n helpu i fireinio ein cynigion yn y dyfodol.

Hoffech chi siarad ag aelod o dîm y Prosiect? Mae croeso i chi gysylltu â ni. Byddem yn fwy na pharod i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych chi. Mae ein manylion cyswllt ar gefn y cylchlythyr hwn.

Cofiwch fod y cylchlythyr hwn yn canolbwyntio ar Fferm Wynt Alltraeth Morecambe yn unig. I gael gwybodaeth am Brosiect Gwynt Alltraeth Morgan, ewch i **www.morecambeandmorgan.com/morgan**. I gael gwybodaeth am Brosiect Gwynt Alltraeth Mona, ewch i **www.morecambeandmorgan.com/mona**.

**Drwy gydol y gwaith o ddatblygu'r Prosiect, rydym wedi bod yn cynnal asesiadau er mwyn deall sut gallai safle'r fferm wynt effeithio ar ddiwydiannau a defnyddwyr morol eraill. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i ddeall effeithiau posibl y fferm wynt arfaethedig ar y môr, a sut gallwn ni weithio gyda'n gilydd i liniaru unrhyw effeithiau posibl.**

Ar sail yr ymgysylltu hwn, ac yn dilyn yr adborth a gawsom ni yn ystod dau gam blaenorol yr ymgynghoriad, rydym hefyd yn ymwybodol bod yr effeithiau y gall y Prosiect eu cael ar lwybrau fferi yn achosi pryder mawr i bobl – yn unigol, ac wrth ei ystyried ochr yn ochr â datblygiadau eraill ym Môr Iwerddon.

Mae'r adborth a gawsom ni yn ystod ein hymgynghoriad statudol yn gynharach eleni, a rhagor o waith technegol, peirianyddol ac amgylcheddol, wedi cyfrannu at ein penderfyniad i leihau ardal datblygu'r fferm wynt o 125 cilomedr sgwâr (km2) i 87km². Rydym yn credu y byddai hyn yn lleihau graddfa'r effaith y byddai'r fferm wynt yn ei chael ar lwybrau fferi a defnyddwyr morol eraill, ac yn lleihau effeithiau cronnol wrth ystyried y prosiect ochr yn ochr â datblygiadau cyfagos eraill.

Drwy leihau ardal datblygu'r safle, byddwn yn gallu cydfodoli'n well â'r seilwaith olew a nwy presennol sydd gerllaw. Yn ogystal â hyn, rydym hefyd wrthi'n addasu dyluniad ein Prosiect. Er enghraifft, gostwng uchafswm y tyrbinau gwynt o 40 i 35.

Sylwer, nid yw'r ffaith ein bod ni'n lleihau maint ardal datblygu'r safle, ac yn gostwng nifer y tyrbinau, yn golygu y bydd ein fferm wynt yn cynhyrchu llai o ynni. Rhagwelir y bydd Asedau Cynhyrchu Fferm Wynt Alltraeth Morecambe yn cynhyrchu capasiti enwol o 480 megawat (MW), ac yn cynhyrchu pŵer adnewyddadwy ar gyfer dros 500,000 o gartrefi yn y Deyrnas Unedig.

Cyn datblygu ein Datganiad Amgylcheddol a chyflwyno ein cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu flwyddyn nesaf, byddwn yn parhau i gynnal asesiadau ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid a rheoleiddwyr er mwyn ystyried a allwn ni liniaru rhagor ar unrhyw effeithiau posibl.

## Arolygon ac asesiadau pellach

**Er mwyn ein helpu i addasu'r dyluniad ar gyfer Asedau Cynhyrchu Fferm Wynt Alltraeth Morecambe, mae arolwg geodechnegol wrthi'n cael ei gynnal yn ardal datblygu'r safle.**

Fel rhan o'r arolwg, bydd 38 o brofion treiddio yn cael eu cynnal, ac 15 o dyllau turio yn cael eu tyllu, ac mae disgwyl iddynt gyrraedd dyfnder o 50 metr o dan wely'r môr.

Pwrpas yr arolwg yw deall amodau gwely'r môr yn well – sef rhywbeth a fydd yn dylanwadu ar ddyluniad terfynol y Prosiect. Bydd y llong yn gweithredu 24 awr y dydd, a bydd bob amser yn arddangos y goleuadau a'r siapiau dydd priodol yn ystod gweithrediadau.

Dechreuodd yr arolwg hwn ym mis Gorffennaf 2023, ac mae disgwyl iddo redeg tan gaeaf 2023. Fodd bynnag, mae'n bosibl i ddyddiadau newid ar fyr rybudd oherwydd y tywydd ac amodau'r safle.

Mae'n bleser gennym ddweud bod gwerth dwy flynedd o arolygon digidol o'r awyr wedi'u cynnal ar adar y môr a mamaliaid morol, a bydd y canfyddiadau hyn yn cael eu defnyddio i lywio asesiadau Datganiad Amgylcheddol y Prosiect. Mae rhagor o arolygon traffig morol wedi cael eu cynnal dros yr haf, a bwriedir cynnal arolwg arall yn ystod gaeaf 2023.

Mae manylion llawn unrhyw arolygon sy'n gysylltiedig â'n Prosiect ar gael yn yr Hysbysiad i Forwyr, a fydd yn cael ei gyhoeddi cyn i'r arolygon ddechrau. Bydd copïau o'r adroddiadau ar gael ar ein gwefan: **www.morecambeandmorgan.com/morecambe**



Delwedd ddangosol o long arolygu arferol. Mae'n bosibl mai nad dyma'r union long arolygu a ddefnyddir ar gyfer y Prosiect.




**Allwedd**

- Fferm Wynt Alltraeth Morecambe, Ardal Datblygu ar Safle'r Fferm Wynt wedi'i Lleihau
- Fferm Wynt Alltraeth Morecambe, Ardal Datblygu Blaenorol ar Safle'r Fferm Wynt

**Other neighbouring Crown Estate Leasing Round 4 developments:**

- Prosiect Gwynt Alltraeth Morgan, Ardal Datblygu ar Safle'r Fferm Wynt wedi'i Lleihau
- Prosiect Gwynt Alltraeth Morgan, Ardal Datblygu Blaenorol y Safle
- Prosiect Gwynt Alltraeth Mona, Ardal Datblygu ar Safle'r Fferm Wynt wedi'i Lleihau
- Prosiect Gwynt Alltraeth Mona, Ardal Datblygu Blaenorol y Safle
- Ffiniau Cwmpasu Asedau Trosglwyddo: Ffermydd Gwynt Alltraeth Morecambe a Morgan




Cofiwch fod y cylchlythyr hwn yn canolbwyntio ar Fferm Wynt Alltraeth Morecambe yn unig. I gael gwybodaeth am Brosiect Gwynt Alltraeth Morgan, ewch i **www.morecambeandmorgan.com/morgan**. I gael gwybodaeth am Brosiect Gwynt Alltraeth Mona, ewch i **www.morecambeandmorgan.com/mona**.

**Ardal Morecambe**
$87km^2$

**Dyfnder y dŵr**
18-40m

**Pŵer Morecambe**
500,000
o gartrefi

**Lleoliad**
30km
oddi ar yr arfordir

## Y camau nesaf ar gyfer Asedau Cynhyrchu Fferm Wynt Alltraeth Morecambe

**Y flwyddyn nesaf, rydym yn bwriadu cyflwyno ein cais am gydsyniad datblygu i'r Arolygiaeth Gynllunio a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net.**

Os derbynnir y cais, bydd cam cyn-archwilio yn dechrau, gyda chyfleoedd i bobl gofrestru fel parti â diddordeb ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio a gwneud cais i gymryd rhan yn y broses archwilio.

Yna, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn archwilio'r cais, gyda mewnbwn gan bartïon sydd â diddordeb ac ymgyngoreion statudol. Disgwylir i'r cyfnod archwilio fod yn uchafswm o chwe mis. Ar ôl yr archwiliad, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn cyflwyno ei hargymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol, a fydd wedyn yn penderfynu'n derfynol a ddylid rhoi caniatâd cynllunio i'r cais ai peidio.

Rydym yn rhagweld y bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud ar ein cais yn 2025.

Gan gymryd y bydd y cais yn llwyddiannus, rydym yn disgwyl dechrau'r gwaith adeiladu yn 2026 ar y cynharaf. Yn y cyfamser, byddwn ni'n parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid ac yn cynnal rhagor o asesiadau technegol er mwyn datblygu'r Prosiect gorau posibl.

**Amserlen Ddangosol** — Rydym ni yma (2024)

**2022**
Gwaith asesu ac arolygon technegol ac amgylcheddol sy'n mynd ymlaen.
Ymgynghoriad anstatudol ar Asedau Cynhyrchu Fferm Wynt Alltraeth Morecambe.

**2023**
Ymgynghoriad statudol ar Asedau Cynhyrchu Fferm Wynt Alltraeth Morecambe.
Gwaith asesu ac arolygon technegol ac amgylcheddol sy'n mynd ymlaen.


**2024**
Cyflwyno cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu.

**2026**
Y dyddiad cynharaf y disgwylir i'r gwaith adeiladu ddechrau.

**2028/29**
Dyddiad Gweithredu Masnachol Disgwyliedig.

Cywir ar adeg cyhoeddi: Medi 2023.
Sylwch mai amserlen ddangosol yw hon, a gallai newid.

# Mae ymgynghoriad statudol i fod i ddechrau ar gyfer Ffermydd Gwynt Alltraeth Morgan a Morecambe: Asedau Trosglwyddo




Mae'r diagram dangosol hwn yn dangos pa ran o'r prosiectau sy'n cael eu dosbarthu fel Asedau Cynhyrchu (Fferm Wynt Alltraeth Morecambe a Phrosiect Alltraeth Morgan) a pha rannau sy'n cael eu dosbarthu fel Asedau Trosglwyddo (Ffermydd Gwynt Alltraeth Morgan a Morecambe: Asedau Trosglwyddo).

Mae Ffermydd Gwynt Alltraeth Morgan a Morecambe: Asedau Trosglwyddo yn cyfeirio at yr asedau ar y môr ac ar y tir a fydd yn cael eu defnyddio i gludo trydan o Fferm Wynt Alltraeth Morecambe a Phrosiect Gwynt Alltraeth Morgan (datblygiad cyfagos dan arweiniad EnBW/bp) i is-orsaf y Grid Cenedlaethol yn Penwortham. Mae'r ddau brosiect yn bwriadu cyflwyno cais ar y cyd am ganiatâd datblygu ar gyfer yr Asedau Trosglwyddo. Bydd hyn yn cynnwys ceblau allforio ar y môr ac ar y tir, platfformau is-orsaf ar y môr, is-orsafoedd ar y tir, seilwaith grid cysylltiedig arall, a gorsaf atgyfnerthu ar y môr ar gyfer Prosiect Gwynt Alltraeth Morgan.

Bydd ymgynghoriad statudol ar gyfer y Prosiect Asedau Trosglwyddo yn dechrau **ddydd Iau 12 Hydref 2023** ac yn dod i ben am 23:59 **ddydd Iau 23 Tachwedd 2023**. Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn unol â gofynion Deddf Cynllunio 2008. Er bod cysylltiad rhyngddynt, mae'r ymgynghoriad statudol a'r cais dilynol am gydsyniad datblygu ar gyfer y Prosiect Asedau Trosglwyddo ar wahân i Asedau Cynhyrchu Fferm Wynt Alltraeth Morecambe ac Asedau Cynhyrchu Prosiect Gwynt Alltraeth Morgan – mae'r naill a'r llall angen eu ceisiadau eu hunain am Orchymyn Cydsyniad Datblygu.

Y dull o ymgysylltu ac ymgynghori yw ceisio adborth cyffredinol ar y cynigion o ran yr Asedau Trosglwyddo, gan gynnwys canolbwyntio'n benodol ar y canlynol:

- Yr Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol (PEIR).
- Y Ffin Llinell Goch sydd wedi'i haddasu, a lleoliad yr Asedau Trosglwyddo.
- Sut y gellir lleihau effeithiau amgylcheddol tebygol y Prosiect Asedau Trosglwyddo.

Yn ystod yr ymgynghoriad, bydd cyfres o ddigwyddiadau yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb ac ar-lein. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i bobl siarad ag aelodau o'r tîm, cael rhagor o wybodaeth am y cynigion, a gofyn unrhyw gwestiynau sydd ganddyn nhw. Ar ddechrau'r ymgynghoriad, bydd gwefan y Prosiect Asedau Trosglwyddo yn cael ei diweddaru ac yn cynnwys yr holl ddeunyddiau ymgynghori a gwybodaeth am sut gallwch chi gymryd rhan.



Delwedd ddangosol o fferm wynt ar y môr. Gall dyluniad gwirioneddol Asedau Cynhyrchu Fferm Wynt Alltraeth Morecambe ac Asedau Cynhyrchu Prosiect Gwynt Alltraeth Morgan fod yn wahanol.

## Ffermydd Gwynt Alltraeth Morgan a Morecambe: Asedau Trosglwyddo

Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth, neu os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am **Ffermydd Gwynt Alltraeth Morgan a Morecambe: Asedau Trosglwyddo**, cysylltwch â thîm y Prosiect:

Gwefan
**www.morecambeandmorgan.com/transmission**

Ffôn
**0800 915 2493 (Opsiwn 3)**

E-bost
**info@morecambeandmorgan.com**

Llythyr
**RHADBOST MORGAN A MORCAMBE**

**Asedau Cynhyrchu Fferm Wynt Alltraeth Morecambe sydd dan sylw yn y cylchlythyr hwn. I gael rhagor o wybodaeth:**

Ewch i:
**www.morecambeandmorgan.com/morecambe**
neu sganiwch y cod QR

E-bostiwch:
**hello@morecambeoffshorewind.com**

Ysgrifennwch atom:
**FREEPOST MORECAMBE GENERATION**

Ffoniwch:
**0800 915 2493 (Opsiwn 2)**